# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(5) v3

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda chwmni Lloyds Banking Group ynghylch cau'r ganolfan alwadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r ffaith bod 700 o weithwyr yn colli'u swyddi, ac yn benodol, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r gweithwyr hynny sy'n methu adleoli.

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Blaenoriaethau Deddfwriaethol (45 munud)**

**4 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth (15 munud)** (Tudalennau 1 - 5)

**NDM4722 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NNDM4642, y darpariaethau ychwanegol hynny a gyflwynwyd i'r Bil Lleoliaeth ynghylch pwerau cyffredinol a phwerau codi ffioedd i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a hawl y gymuned i brynu, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2011 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).*

*Gellir cael mynediad i NNDM4642 drwy'r linc a ganlyn:*

***http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-motions.htm?act=dis&id=208215&ds=1/2011***

*I weld copi o'r Bil Lleoliaeth:*

***http://services.parliament.uk/bills/2010-11/localism.html***

**5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Addysg (15 mins)** (Tudalennau 6 - 8)

**NNDM4731 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NNDM4660, y darpariaethau ychwanegol hynny a gyflwynwyd i'r Bil Addysg ynghylch ffioedd am fwrdd a llety mewn Academïau byrddio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mehefin 2011 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).*

*Gellir cael mynediad i NNDM4660 drwy'r linc a ganlyn:*

***http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-motions.htm?act=dis&id=209521&ds=2/2011***

*I weld copi o'r Bil Addysg i:*

***http://services.parliament.uk/bills/2010-11/education.html***

**6 Dadl ar Gomisiwn Bevan (60 munud)**

**NNDM4730 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn croesawu adroddiad Comisiwn Bevan "2008 – 2011 NHS Wales: Forging a better future" a

2. yn nodi'r dadleuon sydd ynddo o blaid:

a) cydnabod yr heriau anodd sy'n wynebu'r GIG yn y dyfodol;

b) cefnogi newidiadau i wasanaethau sy'n hanfodol er mwyn diogelu dyfodol y GIG;

c) cefnogi camau gweithredu yn y maes clinigol i wella diogelwch ac ansawdd y gofal a roddir i gleifion; a

d) creu gwir bartneriaeth gyda'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod yr ethos a oedd yn sail i sefydlu'r GIG yng Nghymru yn cael ei gynnal yn y dyfodol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Sir Fynwy)**

Ym mhwynt 1, dileu “Yn croesawu” a rhoi “Yn nodi” yn ei le.

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Sir Fynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn siomedig â chynigion Llywodraeth Cymru i leihau cyllidebau’r GIG dros y 3 blynedd nesaf.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn galw ar y Llywodraeth i gyhoeddi cynllun manwl, gyda thargedau y gellir eu mesur, i wneud yn siŵr y gall y gwasanaeth iechyd ymateb i’r heriau a nodir yn yr adroddiad.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ymateb manwl a chynhwysfawr i’r adroddiad mewn modd sy’n dangos ei hymrwymiad i GIG cynaliadwy, gan gynnwys:

a) gwella canlyniadau cleifion;

b) atal gwasanaethau rhag cael eu cwtogi;

c) mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd;

d) sicrhau'r manteision iechyd mwyaf posibl yng nghyswllt meysydd polisi eraill; ac

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal gwasanaethau’r GIG rhag cael eu canoli, a chadarnhau ei hymrwymiad i gynnal Ysbytai Cyffredinol Dosbarth sy’n hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau iechyd lleol.

*Mae copi o adroddiad Comisiwn Bevan "2008 – 2011 NHS Wales: Forging a better future" i'w weld yn*

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/betterfuture/?skip=1&lang=cy

**7 Cyfnod pleidleisio**

**8 Dadl Fer (30 munud)**

**NNDM4728 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Gadewch i Blant fod yn Blant

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mercher, 15 Mehefin 2011